GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025-2026



Neges gan y Prif Weithredwr

Mae'n bleser gen i rannu Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer 2025-2026 gyda chi.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn credu'n gryf na ddylid ystyried y Gymraeg fel amcan ar ei ben ei hun, ond fel rhan annatod o bopeth a wnawn. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i wreiddio'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel, ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg er mwyn sicrhau y gall ein defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at ofal yn eu dewis iaith.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn

Diolch
Nicola Prygodzicz
(Prif Weithredwr)




Neges gan Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol

Mae ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethwn yn ddiwyro o hyd. Fel mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, wrth gyflawni Safonau'r Iaith Gymraeg rydym yn defnyddio dull ehangach a holistaidd er mwyn sicrhau bod anghenion a disgwyliadau ein poblogaeth ledled Gwent yn cael eu deall a'u diwallu.

Drwy weithio mewn partneriaeth â'n staff a chydweithio â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, rydym yn parhau i ddatblygu dyheadau *Mwy na Geiriau* a Safonau'r Gymraeg.

Rydym yn falch o'r gwelliannau rydym wedi'u gwneud ac yn parhau i fod wedi ymrwymo i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ar draws ein sefydliad. Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad hwn a dysgu mwy am ein cyflawniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Sarah Simmonds
Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol



Cyflwyniad

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith a wneir gan y Bwrdd Iechyd i gefnogi, hwyluso a darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau ar draws y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg blynyddol o berfformiad a chynnydd i'r cyhoedd ac i Gomisiynydd y Gymraeg. Y cyfnod adrodd a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yw 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 20256

Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro cynnydd yn erbyn ei amcanion mewn perthynas â'r Gymraeg drwy ei Gynllun Pobl ac yn adrodd yn allanol i Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y strategaeth **Mwy na Geiriau** . *Mwy na Geiriau* yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth o ran y Gymraeg ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r strategaeth gyfredol a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar gael yma .

Rydym yn falch o adrodd ein bod yn gwneud cynnydd parhaus yn erbyn yr amcanion. Mae'r prif gyflawniadau yn cynnwys cyrraedd ein lefelau uchaf erioed o ran mapio sgiliau iaith ar draws y gweithlu, datblygiadau sylweddol yn ein darpariaeth o wasanaethau digidol, a chyflwyno dull strategol o gynyddu'r nifer o ymgynghoriadau clinigol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymdrinnir â'r meysydd hyn o gynnydd yn fanylach drwy gydol yr adroddiad hwn.

Er bod heriau'n parhau o ran sicrhau darpariaeth gyson a chynaliadwy o ran y Gymraeg ledled y Bwrdd Iechyd, mae'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn galonogol iawn ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gryfhau ein cynnig o ran y Gymraeg ymhellach i'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu.

Yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan Safon 120 y Gymraeg, mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â:

- Lefel cymhwysedd ein staff yn y Gymraeg,
- Cyfleoedd hyfforddi a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.
- Y lefelau cymhwysedd yn y Gymraeg a bennwyd ar gyfer swyddi gwag a swyddi newydd, a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod adrodd.

Rheoli, Gweinyddu a Chydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg

Atebolrwydd, Llywodraethu a Sicrwydd

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Safonau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei oruchwylio gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol, yn benodol drwy waith yr Uned y Gymraeg (WLU).

Mae'r WLU yn cynnwys staff sydd ag arbenigedd mewn arweinyddiaeth strategol, cynllunio gwasanaethau, datblygu polisïau a chyflwyno'r Gymraeg.

Prif rôl yr Uned yw darparu cyngor, canllawiau a chefnogaeth arbenigol i'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â chydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg a datblygu a darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Drwy ei waith, mae'r WLU yn cefnogi'r sefydliad i ymgorffori'r Gymraeg ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau a datblygu'r gweithlu.

Mae'r WLU yn adrodd yn chwarterol i Grŵp Strategol y Gymraeg, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol, mentrau parhaus, problemau o ran cydymffurfiaeth, a datblygiadau ehangach sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg ledled y Bwrdd Iechyd.

Grŵp Strategol y Gymraeg (WLSG) yw fforwm llywodraethu traws-sefydliadol y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am oruchwylio a chymeradwyo gwaith Uned y Gymraeg.

Prif bwrpas y Grŵp yw darparu goruchwyliaeth strategol, cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'i gyfrifoldebau statudol dros ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae gan y WLSG rôl allweddol wrth fonitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, gan ysgogi gwelliant parhaus, a chefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r Gymraeg.


I gefnogi'r trefniadau llywodraethu hyn, mae'r WLSG yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, gan roi sicrwydd ynghylch ei effeithiolrwydd, cydymffurfiaeth â'i gylch gorchwyl, a chyflawni ei brif gyfrifoldebau. At hyn, ddwywaith y flwyddyn caiff cynnydd yn erbyn safonau'r Gymraeg a'r targedau sydd wedi'u gosod yn Mwy na Geiriau eu hadrodd i bwyllgor Pobl a Diwylliant y Bwrdd Iechyd.

Rheoli Risg

Mae darpariaeth Gymraeg yn ymrwymiad galluogi statudol a strategol pwysig sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau teg, sy'n canolbwyntio ar y person ac sydd o ansawdd uchel.

Mae'r risg nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn gyson mewn perthynas â chydraddoldeb, y Gymraeg a phartneriaeth gymdeithasol wedi'i chofnodi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae hyn yn sicrhau goruchwyliaeth gorfforaethol ffurfiol o'r risg gyfunol, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau, sicrwydd sydd ar gael, bylchau a nodwyd a chynnydd o ran camau lliniaru.


O fewn y risg gyffredinol hon, mae cydran y Gymraeg yn mynd i'r afael ag effaith bosibl diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a bylchau yn y ddarpariaeth gyson o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.



Crynodeb Flynyddol

Mae'r Safonau y mae angen i'r Bwrdd Iechyd lynu atynt o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio y gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

Un o brif egwyddorion sicrhau gwasanaethau dwyieithog yw cael ymwybyddiaeth bendant o alluoedd iaith ein staff. Rydym bellach wedi cofnodi galluoedd iaith 90% o'n staff. Mae'r rhain wedi'u cofnodi mewn tri maes; Siarad a Gwrando, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Mae'r graff isod yn dangos ein cynnydd dros y blynyddoedd.



Mae cael yr ymwybyddiaeth hon o sgiliau staff yn ein galluogi i:

- Sicrhau bod gan staff fynediad at ddyfeisiau sy'n ei gwneud yn amlwg eu bod yn siarad Cymraeg, megis bathodynnau, llinynnau gwddf a gwisgoedd wedi'u brodio.
- Targedu adnoddau, dysgu a chefnogaeth i'r meysydd a fydd yn elwa fwyaf ohonynt.
- Asesu anghenion iaith y tîm wrth hysbysebu swyddi newydd a swyddi gwag.

Mae cleifion yn dweud wrthym fod gallu adnabod staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn rhoi'r cysur iddynt o wybod bod y gefnogaeth ar gael yn y Gymraeg.

Mae trawsnewidiad cadarnhaol sylweddol wedi bod yn null y Bwrdd Iechyd o ran y Gymraeg mewn perthynas â chaffael a datblygu ein hoffer digidol. Drwy ymgysylltu ag Uned y Gymraeg ar ddechrau prosiectau rydym wedi gallu sicrhau bod y platfform digidol penodol yn diwallu anghenion ein cleifion sy'n siarad Cymraeg. Enghraifft bendant o hyn yw ein adnodd cyfathrebu digidol â chleifion. Mae'r offeryn hwn yn caniatáu i bob claf gael mynediad at yr holl ohebiaeth am eu gofal ar-lein yn hytrach nag aros i lythyrau papur gael eu hanfon. Mae'r platfform hwn yn caniatáu inni ddatgan yn hyderus bod pob claf sy'n defnyddio'r offeryn hwn i gael mynediad at eu llythyrau yn gallu derbyn gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

Rydym yn cydnabod bod rhai llwyfannau etifeddol sy'n dal i brofi problemau o ran eu galluoedd dwyieithog, megis ein system e-frysbennu, fodd bynnag rydym yn gweithio gyda'r gwasanaethau, y datblygwyr, ac mewn cydweithrediad â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac rydym yn hyderus y byddwn yn cywiro'r problemau hyn yn ystod y 12 mis nesaf.

Yn unol â safon 110, rydym wedi cyhoeddi cynllun 5 mlynedd i gynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Gellir dod o hyd i'r cynllun yma.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y gwasanaeth Ffisiotherapi sydd wedi croesawu targedau'r strategaeth yn llawn ac yn sylweddoli gwerth darparu gwasanaeth gwirioneddol ddwyieithog.

Mae peth o'r gwaith pwysig sydd eisoes wedi'i wneud yn cynnwys:

- Adnabod sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu.
- Sicrhau y gellir adnabod y staff hynny sydd â sgiliau Cymraeg.
- Sicrhau bod yr amgylcheddau y mae ein cleifion yn eu profi yn ein clinigau yn eu hannog yn gadarnhaol i nodi eu dewis iaith.
- Sicrhau bod yr holl offer asesu a llenyddiaeth ar gael yn rhydd ac yn agored yn y Gymraeg.

Un o'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol a gyflawnwyd hyd yma yw'r agwedd bositif a ddangoswyd tuag at y Gymraeg gan y tîm ffisiotherapi yn ei gyfanrwydd. Mae'r gwasanaeth yn ymfalchïo yn eu ffocws cynyddol ar ddarpariaeth yn y Gymraeg. Dangosir hyn yn y stori staff, y mae mwy o fanylion amdani yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Mae hefyd yn cael ei adlewyrchu yng ngeiriau aelod arall o staff sydd wedi cymryd rhan yn y cwrs meithrin hyder a ddarperir gan Uned y Gymraeg. Mae hi'n nodi bod y sesiynau wedi helpu i gynyddu ei geirfa a'i bod hi bellach yn defnyddio ei Chymraeg gyda'i chleifion ac yn gwisgo ei bathodyn iaith Gymraeg gyda llawer mwy o hyder.

Mae'r gwasanaeth hefyd wedi creu teclyn i annog ffisiotherapyddion newydd a darpar ffisiotherapyddion i ymuno â'u tîm, ac am y tro cyntaf maent wedi cynnwys fideo gan aelod o staff yn y Gymraeg, gan ddangos y pwysigrwydd y maent yn ei roi ar yr iaith.

Rydym ar y trywydd iawn o ran cyflawni'r nodau sydd wedi'u gosod yn y cynllun a byddwn yn cyhoeddi ein hadolygiad 3 blynedd yn 2027.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Gwasanaethau Ar-lein Dwyieithog

Mae ein gwefan gorfforaethol yn parhau i fod yn un o'n llwyfannau cyfathrebu pwysicaf ac mae'n cynnwys llawer iawn o wybodaeth ar gyfer ein poblogaeth leol. Rydym yn falch o allu adrodd, ar y cyfan, bod cydymffurfiaeth yn parhau i fod yn gadarnhaol. Mae adnoddau cyfieithu mewnol ac allanol yn parhau ar gael er mwyn sicrhau y gall y tîm cyfathrebu gwrdd â'r galw cynyddol barhaus am gynnwys Cymraeg, ac mae hon yn parhau i fod yn broses effeithiol sydd wedi'i hen sefydlu.



- Eleni lansiwyd Hwb Iechyd Menywod Gwent newydd sbon - gofod ar-lein i helpu trigolion i ddod o hyd i'r cyngor, y wybodaeth a'r gefnogaeth gywir ar gyfer pryderon iechyd menywod. Mae'r platfform amlswyddogaethol hwn yn adnodd cwbl ddwyieithog, sydd hefyd yn cynnwys asedau brandio dwyieithog sy'n eistedd ochr yn ochr ag ef, gan gryfhau gofal cynhwysol a thosturiol.





Presenoldeb ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'n bleser gennym adrodd bod yr holl asedau cyfathrebu a gynhyrchwyd gan y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi aros yn gwbl ddwyieithog drwy gydol y cyfnod hwn. Rydym yn parhau i wynebu heriau o ran presenoldeb cyfryngau cymdeithasol amrywiol wasanaethau annibynnol o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae ein cleifion yn dweud eu bod yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth amhrisiadwy iddynt, ond mae angen parhau â'r gwaith i wella ein cydymffurfiaeth yn y maes hwn.

Mae niferoedd y dilynwyr a'r cyfraddau ymgysylltu gyda'n cyfrifon cyfrwng Cymraeg wedi aros yn debyg i gyfraddau blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae gostyngiad yng ngweithgarwch y Bwrdd Iechyd ar blatfform X wedi arwain, yn ddealladwy, at ostyngiad pellach yn nifer y dilynwyr, ac mae hyn yn gyson â'r gostyngiad cyffredinol mewn defnyddwyr ar draws y platfform.

Sianel	Cyfrwng	Nifer y dilynwyr 2024/25	Nifer y dilynwyr 2025/26
	Cymraeg	328	332
	Saesneg	112,193	115,286
	Cymraeg	240	231
	Saesneg	25,600	25,200
	Cymraeg	186	205
	Saesneg	14,405	15,206

Ymgysylltu gyda Staff

Rydym yn cydnabod mai elfen allweddol o'n gwaith yw sicrhau bod staff yn parhau i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae gweithgareddau ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth parhaus yn cefnogi staff i ddeall eu cyfrifoldebau a'r cyfraniad y maent yn ei wneud at ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd i atgyfnerthu'r gofynion sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac i hyrwyddo arfer gorau wrth ddiwallu dewisiadau iaith cleifion. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith, gan gefnogi ansawdd gofal a chydymffurfiaeth â safonau'r iaith Gymraeg.

Rydym yn ymgysylltu â'n cydweithwyr sy'n darparu sesiynau anwytho, dysgu a datblygu ar draws ein Bwrdd Iechyd ac yn darparu sesiynau wedi'u teilwra i'r grwpiau hyn.

Dyma rai o'r rhaglenni rydyn ni'n eu cyflwyno:

Rydym hefyd yn cynnal cyfres o sioeau teithiol ar draws ein safleoedd er mwyn ymgysylltu â chynulleidfa eang o gydweithwyr a chynnig cefnogaeth iddynt.

Mae rhai o'r themâu allweddol a'r adborth a dderbyniwyd o'n holl sesiynau ymgysylltu yn cynnwys:

Doedd gen i ddim syniad o'r effaith y gallai cyfarch claf yn y Gymraeg ei chael arnyn nhw. Dw i'n gwybod llawer mwy o Gymraeg nag oeddwn i'n meddwl fy mod i'n ei wybod.

Mae helpu pobl yn y Gymraeg yn fwy na dim ond cyfieithu dogfennau. Rydw i'n mynd i fynd yn ôl i'm man gwaith ac edrych i weld a ydyn ni'n cyflawni'r 'Cynnig Gweithredol' ac yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n gyfforddus i ofyn am help.



Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd arloesol o ymgysylltu'n gadarnhaol â'n gweithlu gan ein bod yn deall ei fod yn fecanwaith hanfodol ar gyfer cael mewnwelediad i ystyriaethau ymarferol darparu gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg.



Dysgu Staff

Rydym yn parhau i gefnogi staff sydd â diddordeb mewn dechrau eu taith Gymraeg neu wella eu sgiliau presennol.

Drwy gydol y flwyddyn, bu lefel barhaus o ymgysylltiad o ran staff sy'n cofrestru ar gyfer cyfleoedd hyfforddiant iaith Gymraeg, ac mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus i gryfhau capasiti o ran y Gymraeg o fewn y gweithlu.

Rydym wedi datblygu teclyn arloesol sy'n gofyn nifer fach o gwestiynau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r aelod staff yn chwilio amdano. Mae hyn yn cynnwys deall beth yw eu galluoedd presennol, pa ffordd sydd orau ganddynt ddysgu, boed mewn amgylchedd dosbarth neu drwy e-ddysgu, a faint o amser maen nhw am ei neilltuo i'r dysgu.

Drwy gael y wybodaeth hon ein nod yw ceisio sicrhau bod y dysgwr yn cael dysgu yn y ffordd sydd fwyaf addas iddyn nhw.

Mae dysgwyr wedi cael eu cyfeirio at amrywiaeth o lwybrau dysgu ac adnoddau, gan gynnwys cyrsiau a ddarperir gan Goleg Gwent a Nant Gwrtheyrn, platfform dysgu digidol *SaySomethinginWelsh* (SSiW), a chwrs cyflwyniadol Cymraeg Croeso 1 .

Yn dilyn cyflwyno cynnig Tiwtora wedi'i deilwra yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae ein tiwtor bellach yn paratoi i gyflwyno'r cwrs *Croeso 2* 10 awr newydd, sy'n creu llwybr dilyniant strwythuredig i ddysgwyr sydd wedi cwblhau'r cwrs Croeso 90 munud cychwynnol Croeso 1.

Mae ein rhaglen *'Codi Hyder'* wedi parhau i gael effaith gadarnhaol ar y staff sy'n cymryd rhan. Mae'r rhaglen hon yn darparu sesiynau 1:1 gyda thiwtor i'r rhai sydd wedi bod â lefel dda o Gymraeg yn y gorffennol ond sydd bellach yn brin o hyder o ran defnyddio'r sgil honno yn eu gwaith. Mae'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio mewn cydweithrediad â'r dysgwr i gael yr effaith fwyaf a chyflawni eu nodau. Nododd un dysgwr a elwodd o'r rhaglen:

"Roeddwn i'n gallu gwneud y pethau sylfaenol ond doedd gen i ddim geirfa ar gyfer fy ngwaith o ddydd i ddydd, ond rydw i nawr wedi cael sawl achos lle mae siarad â chleifion yn y Gymraeg wedi fy helpu i gysylltu â nhw."

Caffi Cymraeg.

Eleni, ail-lansiwyd *Caffi Cymraeg gan Uned y Gymraeg.* Roedd llawer o staff wedi dweud wrthym eu bod nhw'n dymuno cael rhywle lle gallen nhw ddod i sgwrsio gan ymarfer eu sgiliau Cymraeg mewn lle anffurfiol a chyfeillgar.

Cyflwynir *Caffi Cymraeg* bob mis i dimau ac mae wedi'i gynllunio i gefnogi staff i ddatblygu eu hyder a'u cymhwysedd wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Er mwyn sicrhau bod sesiynau'n briodol i anghenion dysgu unigol, cynigir tri grŵp ar wahân i ddysgwyr sy'n diffinio eu hunain fel dechreuwyr, canolradd, a rhugl, gan ganiatáu i gyfranogwyr ymgysylltu â chydweithwyr sydd â lefel debyg o ran hyfedredd.

Mae'r adborth a dderbyniwyd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac mae cyfranogwyr yn tynnu sylw at y manteision sy'n deillio o gael mwy o hyder, ymarfer iaith rheolaidd, a'r cyfle i gysylltu â chydweithwyr o bob cwr o'r sefydliad. Maen nhw hefyd wedi cysylltu dysgwyr â'i gilydd gan ddarparu hyd yn oed mwy o gyfleoedd i ymarfer eu Cymraeg. Nododd un cydweithiwr:

"Mae fy nghydweithiwr a minnau'n eistedd wrth ymyl ein gilydd yn y gwaith ac yn treulio cyfnodau byr yn siarad Cymraeg gyda'n gilydd"

Adnoddau

Cynhyrchir adnoddau er mwyn helpu ein staff i gefnogi ein cleifion mewn sawl ffordd.

Mae ein staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu nodi eu sgiliau iaith er mwyn sicrhau bod ein cleifion a'u teuluoedd yn gallu adnabod siaradwyr Cymraeg a chael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys; llinynnau gwddf, bathodynnau a scrubs, pob un yn arddangos logo Iaith Gwaith. Mae'r adnoddau hyn hefyd ar gael gyda'r gair 'Dysgwr' wedi'i argraffu arnynt. Mae'r gair hwn yn dynodi bod gan unigolyn sgiliau iaith ond eu bod yn ddysgwr.



I'r rhai nad oes ganddynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg, rydym yn cynhyrchu adnoddau megis cardiau pabell a chardiau fflach gydag ymadroddion Cymraeg sylfaenol i'w helpu i gynnal sgyrsiau syml. Mae enghraifft o'r rhain isod. Yn dilyn ceisiadau gan wasanaethau, rydym wedi cynhyrchu fersiynau penodol i wasanaethau o'r cardiau hyn gydag ymadroddion ychwanegol arnynt.





Sbotolau ar aelod o staff

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni, fe wnaethon ni roi sbotolau ar aelod o'n staff clinigol sy'n siarad Cymraeg, Rhys, sy'n falch o ddefnyddio ei Gymraeg gyda chleifion er mwyn sicrhau bod 'cynnig gweithredol' ar gael er mwyn darparu'r profiad gorau posibl i'w gleifion. Cafwyd ymateb anhygoel i'r post hwn ac mae hyn yn dangos yn amlwg bod Rhys yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac yn cael effaith barhaol ar ei gleifion a'i gydweithwyr.

Mae bathodyn y Cynnig Cymraeg yn fy helpu i gysylltu ag eraill sydd eisiau cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae rhai cleifion yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg, ac yn fwy agored gyda mi am eu sefyllfa oherwydd eu bod yn gallu disgrifio eu teimladau yn eu dewis iaith.

Cymraeg



Ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol

Gan bod pob myfyriwr yng Nghymru yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, neu fel ail iaith, rydym yn cydnabod bod gan bob myfyriwr sy'n gadael y system addysg yng Ngwent sgiliau sgwrsio yn y Gymraeg.

Mae ein dull o roi gwybodaeth i'r darpar weithlu hwn yn cynnwys cynnig amrywiol wedi'i deilwra i'r gynulleidfa dan sylw er mwyn creu unigolion sydd mor wybodus â phosibl o ran y ffordd y gellir defnyddio sgiliau Cymraeg yn eu gyrfa yn y dyfodol. Rydym yn teilwra'r cynigion yn benodol i arddangos yr ystod o yrfaoedd y gall y GIG eu cefnogi.

Syrjeri Sgiliau / Skills Surgery

Ysgolion Cynradd

Fe wnaethon ni ddatblygu pecyn cymorth arloesol a diddorol o adnoddau ar gyfer plant 7 i 11 oed. Mae ein cyfres o wersi 'Syrjeri Sgiliau' yn rhoi cipolwg diddorol ar waith staff o fewn y GIG. Mae'r holl wersi wedi'u cynllunio gan arweinydd addysg profiadol ac maent yn cyd-fynd â Chwricwlwm Cymru. Mae pob un o'r pedair gwers yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar ein gwaith yn y maes iechyd. Mae'r gwersi'n cynnwys gweithgareddau rhyngweithiol hwyliog i ennyn brwdfrydedd llwyr y myfyrwyr.

Roedd ein model cyntaf yn cynnwys cyflwyno'r sesiynau i'r myfyrwyr yn yr ysgol. Mwynhaodd ein staff y sesiynau hyn yn fawr ac maent wedi ymgysylltu â dros 300 o blant ar draws nifer o leoliadau. Rydym bellach wedi datblygu'r pecyn cymorth fel y gellir ei gyflwyno'n annibynnol. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion cynradd ddarparu gwybodaeth allweddol am yrfaoedd yn y GIG wrth ymdrin â thargedau Cwricwlwm Cymru ar yr un pryd. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys yr holl adnoddau perthnasol ac yn sicrhau y byddai'r disgyblion yn cael yr un ddarpariaeth ag y byddent pe byddai'r gwersi'n cael eu cyflwyno gan staff y Bwrdd Iechyd. Nododd un myfyriwr; *'Doeddwn i erioed yn gwybod faint o bethau gwahanol y gallech chi eu gwneud wrth weithio i'r Bwrdd Iechyd'.*

Arweiniodd llwyddiant y rhaglen hon ar lefel ranbarthol at gael ein gwahodd i rannu ein rhaglen yn yr eisteddfod genedlaethol ac yn sgil hyn cafwyd ceisiadau i'r pecyn fod ar gael yn genedlaethol. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i osod y deunyddiau hyn ar blatfform a fydd yn eu gwneud ar gael i bob ysgol yng Nghymru.


Ysgolion Uwchradd

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd Uned y Gymraeg i ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Cyrhaeddodd y digwyddiadau hyn dros 500 o fyfyrwyr yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau gyrfaoedd, sesiynau rhwydweithio cyflym, a chyflwyniadau i ddysgwyr ysgolion uwchradd, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa a phwysigrwydd sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu gofal iechyd. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan ysgolion yn y sector Cymraeg wrth iddynt nodi pa mor bwysig yw eu bod yn clywed gan y rheiny sy'n defnyddio eu Cymraeg yn weithredol yn y gweithle er mwyn atgyfnerthu bod galw am y sgil sydd ganddynt. Mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn dweud wrthym eu bod yn ddiolchgar ein bod yn grymuso eu myfyrwyr i ddeall eu bod nhw yr un mor bwysig o ran ein nod o ddarparu gwasanaethau Cymraeg.


Colegau

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Choleg Gwent a Choleg y Cymoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o rôl ac arwyddocâd y Gymraeg o fewn gofal iechyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Uned y Gymraeg wedi cyflwyno cyflwyniadau a sesiynau ymgysylltu i fwy na 100 o fyfyrwyr ar draws pob coleg, gan dynnu sylw at gyfleoedd gyrfa o fewn y GIG a phwysigrwydd sgiliau Cymraeg wrth ddiwallu anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi amcanion cynllunio a recriwtio gweithlu ehangach drwy annog ystyriaeth o gymwyseddau yn y Gymraeg mewn gyrfaoedd gofal iechyd.







Gyrfa Cymru
Careers Wales



Archwiliadau Safle ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Archwiliadau Safle

Fel rhan o'n rhaglen sicrwydd, rydym yn cynnal ymweliadau rheolaidd ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd. Mae'r ymweliadau hyn yn asesu meysydd arfer da a chyfleoedd i wella. Yn dilyn pob ymweliad, rydym yn cydweithio â safleoedd er mwyn datblygu cynlluniau gweithredu lleol a sicrhau bod ganddynt fynediad at y gefnogaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i roi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith.

Mae rhai o'r themâu allweddol a nodwyd yn ystod ein hymweliadau yn cynnwys:

- Defnydd anghyson o arwyddion cyfeirio dwyieithog.
- Mae'r 'Cynnig Gweithredol', (sy'n nodi mai dyletswydd y bwrdd iechyd yw rhoi gwybod i gleifion fod gwasanaethau Cymraeg ar gael, heb yr angen i ofyn amdanynt), yn weladwy ym mhob prif dderbynfa ond maent yn llai aml wrth i chi deithio ymhellach i mewn i ardaloedd clinigol.
- Yn gadarnhaol, mae ymwybyddiaeth gyffredinol sylfaenol o ofynion yr iaith Gymraeg yn uchel ar draws pob safle.

Mae Uned y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cynllunio i sicrhau ymgysylltiad cynnar a pharhaus drwy gydol y broses ddatblygu.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'n ofynnol i bob penderfyniad ar bolisi y Bwrdd Iechyd gael Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r broses yn ei gwneud yn ofynnol i staff asesu effaith bosibl y polisi sy'n cael ei gynnig ar nifer o grwpiau, gan gynnwys ei effaith ar allu'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau mae'n cael ei ddwyn gerbron y Panel Asesu Effaith ar Gydraddoldeb. Mae aelod o staff o Uned y Gymraeg yn aelod sefydlog o'r panel Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb.


Cydweithio

Rydym yn cydnabod bod cydweithio effeithiol yn cryfhau ein gallu i gyflawni cyd-nodau a gwella canlyniadau. Felly rydym yn croesawu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, rhannu gwybodaeth, dysgu gan eraill a chyfrannu at lwyddiant ar y cyd.

Mae pennaeth Uned y Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn cadeirio Fforwm *Mwy na Geiriau* Gwent, sy'n dod â phartneriaid o bob cwr o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth ynghyd. Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolaeth o holl Awdurdodau Lleol Gwent, Coleg Gwent, Coleg y Cymoedd a Menter Casnewydd, gan ddarparu llwyfan gwerthfawr ar gyfer cydweithio, ymgysylltu a dysgu ar y cyd.

At hyn, mae arweinwyr y Gymraeg o bob cwr o GIG Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i gyfnewid arferion gorau a gweithio ar y cyd ar raglenni a mentrau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cydlynu presenoldeb y GIG mewn digwyddiadau mawr megis eisteddfod yr Urdd a'r eisteddfod genedlaethol. Bydd y partneriaethau hyn yn arbennig o werthfawr wrth i'r rhanbarth baratoi i groesawu Eisteddfod yr Urdd yn 2027.

Yn dilyn sgyrsiau gyda chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol o ysgolion lleol, fe wnaethom nodi angen am offer ac adnoddau asesu yn y Gymraeg nad oeddent ar gael ar hyn o bryd. Gan ein bod wedi cydnabod bod hyn yn her ar sail Cymru gyfan, fe wnaethom ymgysylltu ag arweinydd '*Mwy na Geiriau'* Llywodraeth Cymru yn ogystal ag arweinydd, a oedd newydd eu penodi, ar gyfer mapio cymorth anghenion ychwanegol yn y Gymraeg ledled Cymru. Mae hyn wedi symud y gwaith yn y maes hwn yn ei flaen, nid yn unig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ond i bob Bwrdd Iechyd.



Cyfieithu

Mae ceisiadau cyfieithu yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r gwasanaeth cyfieithu a ddarperir gan Uned y Gymraeg yn gadarn, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd statudol i ddarparu deunyddiau dwyieithog i ddefnyddwyr ein gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys; gohebiaeth â chleifion, taflenni gwybodaeth, ffurflenni asesu ac unrhyw wybodaeth arall a gyflwynir i'w chyfieithu. Mae ein system yn cynnwys cyfieithydd mewnol, cytundeb lefel gwasanaeth gyda gwasanaeth cyfieithu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ogystal â chyfieithwyr eraill sydd ar gael ar gyfer darnau penodol o waith.


Yn 2025-2026 fe gyfieithom:

- 599,136 o eiriau yn fewnol
- 509,165 o eiriau yn allanol

Drwy ddefnyddio cyfieithydd mewnol yn ogystal â chytundeb lefel gwasanaeth gwell, rydym yn gallu cynnig arbedion cost sylweddol. Yn 2025-2026 byddai cyfieithu'r geiriau cyfatebol drwy ein trefniadau blaenorol wedi costio £18,000 ychwanegol.

Mae'r graff isod yn dangos cymhariaeth o nifer y geiriau a gyfieithwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf

Ar ben y gwaith hwn, rydym hefyd yn cael ein galw i gyfieithu a recordio nifer o recordiadau llais bob mis.



Galluoedd Iaith y Gweithlu

Mae'r tablau hyn yn dangos dadansoddiadau o bob lefel ar draws y tri maes sydd wedi'u mapio.

(31/03/2026)


Gwrando a Siarad	2023/2024	2024/2025	2025/2026
Lefel 0	9528	10940	11512
Lefel 1	2038	2052	2162
Lefel 2	415	439	443
Lefel 3	166	178	179
Lefel 4	139	150	147
Lefel 5	249	250	306

Darllen	2023/2024	2024/2025	2025/2026
Lefel 0	9731	11159	11748
Lefel 1	1799	1817	1940
Lefel 2	398	422	435
Lefel 3	147	155	167
Lefel 4	132	148	142
Lefel 5	267	264	317

Ysgrifennu	2023/2024	2024/2025	2025/2026
Lefel 0	10102	11565	12184
Lefel 1	1467	1475	1599
Lefel 2	397	418	416
Lefel 3	131	133	143
Lefel 4	104	122	118
Lefel 5	247	239	289

Recriwtio

Mae'r graff isod yn dangos y data ar gyfer swyddi gwag a swyddi newydd mewn perthynas â'r gofynion o ran y Gymraeg a hysbysebwyd gyda'r rolau hynny.



Mae'r siart yn dangos bod bron pob rôl yn cael ei hysbysebu gyda'r Gymraeg yn ddymunol, ac mai ychydig iawn o rolau sy'n nodi'r Gymraeg fel sgil hanfodol. Gan ein bod yn gwybod bod gennym feysydd o fewn ein gwasanaethau lle nad oes unrhyw sgiliau Cymraeg, rydym wedi nodi nad oes asesiadau o'r sgiliau iaith sydd eu hangen yn cael eu cynnal yn rheolaidd ym mhob maes yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan safonau'r Gymraeg. Gyda hyn mewn golwg, mae teclyn digidol peilot wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio gan reolwyr recriwtio a bydd yn cael ei brofi a'i werthuso yn ystod y 6 mis nesaf. Bydd yr offeryn hwn yn gofyn cwestiynau allweddol ac, yn seiliedig ar yr ymatebion, bydd yn nodi'n glir a ddylid hysbysebu swydd gyda sgiliau Cymraeg hanfodol neu ddymunol. Bydd yr offeryn hefyd yn nodi'r lefel o sgil sydd ei hangen, er mwyn rhoi darlun clir i ymgeiswyr o'r disgwyliadau.

Cwynion:

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, derbyniodd y Bwrdd Iechyd bedair cwyn ac ni chafwyd unrhyw ymchwiliadau gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Roedd y cwynion yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â gohebiaeth a dderbyniwyd yn Saesneg yn unig, staff yn gwisgo'r logo 'iaith gwaith' yn dynodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg er nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg a chwyn nad yw'r platfform e-frysbennu mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn caniatáu i gleifion fewnbynnu gwybodaeth yn y Gymraeg.

Ymdriniwyd â phob cwyn a dderbyniwyd gan ddefnyddio Gweithdrefn Gwynion Iaith y Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth â'r tîm Gweithio i Wella, a staff o'r gwasanaethau a oedd yn ymwneud â'r cwynion perthnasol.



Casgliad a Gweledigaeth ar gyfer 2026-2027

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cryfhau ein perthnasoedd â gwasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi cefnogi staff i ddysgu Cymraeg neu gryfhau eu sgiliau Cymraeg, ac wedi cynnig cefnogaeth i gynnal yr hyder hwnnw.

Rydym wedi cynyddu ein hadnoddau generig ac wedi creu ambell i adnodd mwy pwrpasol sy'n cynnig cymorth wedi'i dargedu. Rydym yn dechrau gweld effaith gadarnhaol y gefnogaeth wedi'i thargedu hon wrth weithio ar lefel gwasanaeth, fel yr ydym wedi'i wneud gyda'r gwasanaeth Ffisiotherapi yn unol â safon 110 y Gymraeg.

Rydym wedi cryfhau ein perthynas â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ymhellach ac wedi elwa o'u dull mwy cydweithredol. Mae hyn wedi arwain at sgyrsiau llawer mwy adeiladol ac agored.

Yn ystod y deuddeg mis nesaf rydym wedi nodi sawl maes gwaith allweddol y byddwn yn eu symud yn eu blaen. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, rydym yn cyflwyno teclyn digidol i gefnogi rheolwyr recriwtio i wneud asesiadau cywir o'r lefelau iaith y dylid eu hysbysebu ar swyddi newydd a swyddi gwag.

Gyda ffocws Llywodraeth Cymru ar sgiliau iaith mewn Gofal Sylfaenol, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr ar draws yr adran i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth a chynnig cefnogaeth i ddarparwyr, gan eu galluogi i sicrhau bod y Cynnig Gweithredol wedi'i ymgorffori yn y lleoliadau hyn.

Byddwn yn mabwysiadu system gaffael newydd a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ar ddechrau unrhyw brosesau caffael. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth o ran y Gymraeg, yn ogystal â gofynion safonau'r Gymraeg, yn cael eu hystyried yn llawn o'r cam cynharaf posibl, yn hytrach na bod angen eu cywiro'n ôl-weithredol ar ôl i gontract gael ei ddyfarnu.

Yn unol â nod y Bwrdd Iechyd i roi'r claf wrth wraidd eu gofal, byddwn hefyd yn datblygu 'Panel Cyfranogiad Cleifion' ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg. Bydd y panel hwn yn rhoi lle hwylus i gleifion rannu eu profiadau o ofal, rhai cadarnhaol ac adeiladol. Yna bydd cynrychiolwyr o'r panel yn ymuno â chynrychiolwyr o baneli eraill i fwydo i'r 'Gymuned Ymarfer' ehangach sydd wedi'i sefydlu.

Gydag eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ymweld â'r rhanbarth yn 2027, byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i sicrhau presenoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y maes. Bydd hwn yn gyfle i ymgysylltu â'r tua 100,000 o ymwelwyr sy'n ymweld â'r digwyddiad bob blwyddyn ac rhoi gwybodaeth i bobl ifanc am ein gwasanaethau. Gyda'r nod o gryfhau'r perthnasoedd hyn gyda'n cymunedau ysgolion lleol sy'n siarad Cymraeg, roeddem yn ddiolchgar o groesawu disgyblion o ysgol Gymraeg newydd Casnewydd, 'Ysgol Nant Gwenlli'. Fel rhan o'n dathliadau Dydd Gŵyl Dewi eleni daeth disgyblion i ddosbarthu cennin Pedr i staff, cleifion ac ymwelwyr ag Ysbyty Brenhinol Gwent.

Rydym yn gyffrous am y newidiadau cadarnhaol y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u gwneud ers i Safonau'r Gymraeg gael eu cyflwyno yn 2019. Rydym yn cydnabod bod llawer iawn o waith i'w wneud o hyd, ac fel sefydliad sy'n ymdrechu'n gyson i fod y gorau y gall fod, rydym yn cydnabod na fyddwn byth yn rhoi'r gorau i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu ein hunain a gwella. Rydym yn falch o ble rydym wedi cyrraedd ac yn edrych ymlaen gyda llygaid gynyddol optimistaidd at y dyfodol.

